CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

Cofnodion cyfarfod 18 Mehefin a gynhaliwyd wedi'r cyfarfod blynyddol yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7:00 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Daniel Williams	Iwan Huws	
Casi Roberts	Nerys John	
Eifion Williams	Mei Gwilym	
Aled Emyr	Elliw Williams	
Wynne Barton - Swyddog Ariannol		
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
1.1	Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod misol gan y Cadeirydd Iwan Huws.	
1.2	Dywedodd y Cadeirydd bod dau lythyr ymddiswyddiad wedi ei dderbyn gan Sarah Riley ac Einir Coates. Diolchodd y Cadeirydd I'r ddwy am eu gwasanaeth ar y Cyngor a gobeithio'r gorau iddynt.	
2.0	**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**	
	Nid oedd y Cynghorydd Sir yn gallu bod yn bresennol ond anfonodd adroddiad ysgrifenedig at y Cadeirydd.	
3.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Dim	
4.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL**	
4.1	Cyflwynodd y Swyddog Ariannol y gwariant ar gyfer mis Mai 2019. Derbyniwyd.	
4.3	Cyflwynwyd y Swyddog Ariannol adroddiad ariannol ar gyfer mis Mai 2019. Derbyniwyd	
5.0	**CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL**	
5.1	Cadarnhawyd cofnodion mis Mai fel rhai cywir wedi fan newidiadau.	
6.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
6.1	C19/0422/20/LL - Codi modurdy yng nghefn yr eiddo - 33 Brynffynnon, Y Felinheli LL56 2SX - **DIM GWRTHWYNEBIAD**	**CLERC - e-bost wedi ei anfon at wasanaethau Cynllunio**
6.2	C19/0462/20/CC - ymgymryd â gwaith i goed sy'n destun gorchymyn gwarchod coed - Menai Marina y Felinheli LL56 4QX - **DIM GWRTHWYNEBIAD**	**CLERC - e-bost wedi ei anfon at wasanaethau Cynllunio**
6.3	C19/04080/20/LL - estyniad i'r balcony presennol - 54 Hen Gei Llechi Y Felinheli LL56 4PD - **DIM GWRTHWYNEBIAD**	**CLERC - e-bost wedi ei anfon at wasanaethau Cynllunio**
	C19/0506/20/RC - diwygio cytundeb cyfriethio o dan Adran 106 er mwyn 1) lleihau y niferoedd tai fforddiadwy o 4 - i 2 a 2) cynyddu'r disgownt ar gyfer 2 dy fforddiadwy - Tŷ Hanner Ffordd - GWRTHWYNEBIAD Roedd y Cyngor yn credu bod cael 4 tŷ fforddiadwy o fudd i'r gymuned ac yn llwyr gredu bod angen mwy o dai fforddiadwy i deuluoedd ifanc y pentref.	**CLERC - e-bost wedi ei anfon at wasanaethau Cynllunio**
7.0	**PRIFFYRDD, MEINCIAU A CHYSGODFANNAU**	
7.1	Cyfyngiadau Parcio - Hen Gei Llechi. Ni oedd can y Cyngor sylwadau ar y cynllun diweddaraf oherwydd roedd o ganlyniad cyfarfod safle gyda Chyngor Gwynedd a'r trigolion.	**CLERC**

Heather Lynne Jones

7.2	Traffig ger yr ysgol - Mr Maldwyn Jones wedi anfon adroddiad ynglŷn â'i bryderon ynglŷn â chyflymdra a sefyllfa gollwng a chodi plant ger yr ysgol a'i ddymuniad i gael croesfan ger Y Wern a Ger y Nant. Mae'r cais wedi ei dderbyn gan y Cynghorydd Sir. Y Cynghorydd Sir wedi ymateb a deud ei fod wedi gwneud cais i'r Cyngor Sir gynnal adolygiad ar y safle.	
7.3	Dywedodd y Cynghorydd Daniel Williams ei fod wedi derbyn dyddiad ar gyfer cychwyn ar y gwaith o osod cysgodfan yn Aberpwll sef 15fed o Orffennaf 2019. Hefyd roedd yn dweud bod sbwriel yn cael ei adael o fewn y cysgodfannau a bydd angen cadw llygad ar hyn. Mae'r Cynghorydd Nerys John yn trefnu i gael gosod rhybudd ar waelod y poster yn y cysgodfan. Yn dilyn y fandaliaeth roedd y Cyngor yn awyddus i adrodd y broblem i'r heddlu. Credir oherwydd nad oes presenoldeb yr heddlu o fewn y pentref mae achosion o fandaliaeth wedi cynyddu. Y Clerc i anfon at Gomisiynydd yr Heddlu i adrodd am yr hanes a gofyn am ystadegau o droseddu yn yr ardal yn ddiweddar yn enwedig ers y gostyngiad yn niferoedd heddweision a Swyddogion Cymunedol yr heddlu.	**CLERC – ebost wedi ei anfon**
7.4	Wedi derbyn adroddiad Cyngor Gwynedd a'r cyflymdra Ffordd Caernarfon roedd y Cyngor yn awyddus i anfon at Gyngor Gwynedd yn gofyn iddynt ail edrych ar y sefyllfa a chynnig opsiynau ar y ffordd ymlaen yn enwedig gan fod Llwybr Cyhoeddus yn croesi'r ffordd a nifer o bobl ifanc yn ei ddefnyddio i ddal bws ysgol. Y Clerc i anfon at Gyngor Gwynedd.	**CLERC - ebost wedi ei anfon**
7.5	Dywedodd y Cynghorydd Daniel Williams bod y Cynghorydd Sir mewn trafodaethau gyda Chyngor Gwynedd a'r Heddlu ynglŷn â thraffig o fewn y pentref yn enwedig pan mae'r ffordd osgoi ar gau.	
8.0	**LLWYBRAU A LON LAS**	
8.1	Dywedodd y Clerc ei bod wedi siarad â'r Swyddog sydd bellach yn edrych ar ôl y Lon Las a'i fod wedi anfon ymlaen yr adroddiad ynglŷn â'r wal sydd wedi dymchwel ymlaen am ystyriaeth. Roedd y Cyngor yn awyddus i wybod os oes penderfyniad wedi ei wneud ar y mater. Y Clerc i anfon at y Swyddog i ofyn am y diweddariad a hefyd am gopi o'r adroddiad hwnnw.	**CLERC –ebost wedi ei anfon**
9.0	**MYNWENT, MAES PARCIO A SAFLE MORIA**	
9.1	Cyflwynodd y Cynghorydd Casi Robert argymhellion yr is-bwyllgor ynglŷn â ffioedd newydd ar gyfer claddedigaeth. Roedd y Cyngor yn gytûn. Manylion i'w hanfon at y Clerc a'r ffioedd i'w gosod ar y wefan a hysbysfwrdd y fynwent.	**CLERC**
10.0	**PROSIECTAU**	
	Dywedodd y Cynghorydd Elliw Williams eu bod yn archwilio ffynonellau ar gyfer grantiau i godi arian gogyfer datblygu'r cae chwarae. Gobeithir bydd y ceisiadau i gyd yn dod ac oddeutu £10K	**EW**
11.0	**NEUADD GOFFA A CHLOC**	
11.1	Cyflwynwyd adroddiad eglurhaol ynglŷn â chamerâu teledu	**EW**

	cylch cyfyng gan y Cynghorydd Daniel Williams hefyd y pris am gyflwyno 8 camera. Mae angen talu'r anfoneb o flaen derbyn yr offer. Roedd y Cyngor Y Swyddog Ariannol i drefnu.	
11.2	Cyflwynodd y Cynghorydd Daniel Williams adroddiad ynglŷn â gwaith o fewn y Neuadd. Eglurodd bod y cyngor eisoes wedi talu i'r pensaer Peter Wray am adroddiad ar waith sydd ei angen i'r Neuadd sef porch, cael mynediad i'r hen ystafell y boiler, a mechanical vent a heat recovery. Dywedodd ei fod angen cael pris i'r gwaith ond yn gyntaf mae angen manyleb y gwaith ac mae wedi derbyn pris gan y pensaer am y gwaith hwn sef £3500 yn cynnwys 7 ymweliad safle. Roedd y Cyngor yn gytûn.	
12.0	**TOILEDAU CYHOEDDUS**	
12.1	Llofnodwyd cytundeb Toiledau Cyhoeddus Cyngor Gwynedd.	**CLERC – contract wedi ei hanfon**
12.2	Dywedwyd bod angen paentio'r toiledau. Y Clerc i ofyn i Gyngor Gwynedd os oes modd iddynt baentio'r toiledau ac os yw hyn ddim yn bosib oes modd i'r Cyngor Cymuned cael gwneud.	**CLERC – Ebost wedi ei anfon**
13.0	**GWEFAN**	
	Angen rhoi ffurflenni cytundeb defnyddio'r Neuadd ar y wefan	**DW/CLERC**
14.0	**GWYDNWCH CYMUNEDOL**	
	Penderfynwyd byddai'r mater yma yn cael sylw pob mis Medi er mwyn sicrhau bod prosesau mewn lle ar gyfer unrhyw dywydd garw fydd yn bosib ym misoedd y gaeaf.	**CLERC/EW**
15.0	**AMRYWIOL**	
15.1	Penderfynwyd cael stondin yng Ngŵyl y Feline to eleni. Byddai'r achlysur hwn o fudd yn gyfle gwych i ddod o hyd i gynghorwyr newydd.	**Aelodau yn ymgymryd a'r gwaith**
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 21:00	
Llofnod:		**Dyddiad:**